

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	15 Medi 2020
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	30 Medi 2020

PWNC

Eitem 5:YSGOL ABERSOCH

PENDERFYNIAD

Rhodddwyd caniatâd i gynnal ymgynghoriad statudol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Medi 2021 ymlaen.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yng nghyfarfod y Cabinet yn Medi 2019 cefnogwyd yr argymhelliad i gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda chorff llywodraethol Ysgol Abersoch er mwyn ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol. Daeth y penderfyniad yn sgil pryderon diweddar ynglŷn â lleihad yn niferoedd disgyblion yr ysgol.

Roedd yr adroddiad hwn yw adrodd yn ôl ar ganlyniad y trafodaethau lleol, a cheisio caniatâd i gynnal ymgynghoriad statudol ar gynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Medi 2021 ymlaen.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD**

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	15 Medi 2020
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	30 Medi 2020

PWNC

Eitem 6:ADRODDIAD PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2019/20

PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd Adroddiad Perfformiad Gwynedd 2019/20 ac argymell i'r Cyngor Llawn ei fod yn ei fabwysiadu.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn unol â chyfundrefn rheoli perfformiad y Cyngor, cyflwynwyd Adroddiad Perfformiad Gwynedd 2019/20 i'r Cabinet yn gyntaf am gymeradwyaeth.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	15 Medi 2020
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	30 Medi 2020

PWNC

Eitem 6:ADRODDIAD COVID-19 - ADFER

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd y diweddariad ar y gwaith sy'n mynd ymlaen i sefydlogi ac ail adeiladu yn sgil yr argyfwng Covid-19 a chytunwyd i ofyn i'r Byrddau neu adrannau perthnasol roddi sylw i'r materion pellach oedd wedi codi yn y gweithdy diweddar ar y mater.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Er mwyn cynllunio'r hyn oedd angen sylw wrth symud ymlaen o'r argyfwng Covid -19, ym mis Mai, bu i'r Cabinet gomisiynu'r Bwrdd Adfywio a'r Bwrdd Cefnogi Pobl i ystyried y meysydd y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt yn nhermau'r hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd ar gyfer y cyfnod o sefydlogi ac ail adeiladu sydd o'n blaenau. Roedd yr adroddiad yn amlygu y materion oedd yn derbyn sylw.

Nodwyd rhai materion pellach godwyd mewn gweithdy diweddar sef –

- Diweithdra
- Cynaliadwyedd Trafnidiaeth Gyhoeddus
- Iechyd Meddwl a Lles ehangach
- Argaeledd tai i bobl leol
- Gwydnwch Cymunedol a chynnal yr ymdeimlad o wirfoddoli
- Perthynas waith gyda chyrrff eraill
- Iechyd Cyhoeddus
- Cynaliadwyedd y sector gofal
- Cynaliadwyedd adnoddau cymunedol i'r sector ddiwylliannol
- Iaith
- Cadwyn cyflenwad bwyd

a chytunwyd fod angen ystyried beth y gellid ei wneud yn y meysydd yma hefyd.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.
